Y BEDOL


PAPUR BRO RHUTHUN A'R CYLCH


f 47 Rhif 2 . Chwefror 2024 £1

SGILIAU NEWYDD AR GYFER BLWYDDYN NEWYDD YNG NGHAFFI TRWSIO RHUTHUN



Ym mis Chwefror 2020, ar Ddiwrnod Trwsio Rhyngwladol, bu i Jozsef Vass sefydlu'r Caffi Trwsio cyntaf yma yn Rhuthun gyda chymorth aelodau grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear. Fe gafodd ei ysbrydoli gan Gaffis Trwsio eraill oedd, ar y pryd, yn codi fel madarch dros y byd. Ers ei sefydlu yn 2020 mae yna 28 o Gaffis Trwsio wedi eu cynnal gan Gyfeillion y Ddaear, Rhuthun. Ond oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymiadau addysgol bu'n rhaid i Jozswf Vass roi'r gorau iddi gan adael i eraill gymryd drosodd yr awenau. Meddai, "Mae'n galondid gweld y Caffi Trwsio wedi datblygu cystal dros y blynyddoedd a hynny yn bennaf drwy sgiliau trefnu arbennig Anne Lewis a gymrodd drosodd yn 2021. Anne bellach sy'n cyd-drefnu'r gwirfoddolwyr; yn cysylltu gyda'r darparwyr; yn sgwrsio gyda'r cwsmeriaid; yn datrys unrhyw broblem a gyfyd ac yn cyd-drefnu gyda grwpiau eraill." A meddai Anne am y Caffi Trwsio, "Dwi wrth fy modd yn gweithio efo tîm mor dalentog sy'n gallu trwsio eitemau a fyddai fel arall yn cael eu taflu ar y domen sbwriel. Mae'r Caffi yn darparu gwasanaeth cymunedol ardderchog i'w cwsmeriaid yn ogystal ag i'r gwirfoddolwyr. Cofiwch fod amryw o wirfoddolwyr, oedd yn gwasanaethu yn y Caffi cyntaf yn 2020, yn dal efo ni heddiw." Meddai Tim Cook, un o'r gwirfoddolwyr hynny, "Dwi'n hen law ar drwsio eitemau sydd wedi malu a dwi'n cael boddhad mawr wrth roi bywyd newydd i nifer o'r eitemau hyn."





Mae ystadegau'r caffi Trwsio yn drawiadol. Yn 2023 daethpwyd a 373 o eitemau i'r caffi i'w trwsio a llwyddwyd i drwsio 76% ohonynt a rhoddwyd cyngor doeth i tua 14% gan wneud y cyfanswm o 90%. Ers sefydlu'r Caffi Trwsio yn 2020 mae 836 o eitemau wedi cael eu trwsio.

Yn ystod y mis hwn rydym yn cynnig un gwasanaeth ychwanegol sef hogi offer. Gan y gall amryw o'r tim gyflawni'r dasg yma, felly, os oes gennych chi ambell i siswrn neu gryman yn hel llwch yng nghefn eich sied a hynny ers rhai blynyddoedd, dewch a nhw i'r Caffi Trwsio i'w hogi fel y bydd yn llawer haws ichi frwsio gwrych eich gardd yr haf nesaf.

Cynhelir y Caffi Trwsio ar y Sadwrn cyntaf o bob mis o 10 o'r gloch y bore hyd 1 o'r gloch y pnawn (archebion olaf am 12.30p.m.) Eitemau y gellir eu trwsio yw gemau; eitemau trydanol; offer cerddorol fel gitar, ffliwt a chlarinet; eitemau seramig; hogi offer; trwsio dillad a thecstiliau ac ambell i eitem arall.

Diane Sanders
(Swyddog y Wasg dros Gaffi Trwsio Rhuthun.)